

## Pwrpas y poster

Mae’r poster yma yn trafod addysgu’n drawsgwricwlaidd a bydd gwahanol agweddau ohono yn cael ei drafod ym mhob un o’r adrannau. Bydd yr awdur yn cymharu dau fodel gwahanol wrth ddangos esiamplau o gyfres o wersi gellir eu defnyddio.

## Beth yw addysg trawsgwricwlaidd?

Yn syml, addysgu trawsgwricwlaidd yw addysg sydd yn cyfuno gwahanol agweddau o’r Cwricwlwm er mwyn datblygu sgiliau ar draws y meysydd. Dywed Barnes (2015, t. 62) fod dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd pan mae “sgiliau, gwybodaeth, ac agweddau o amryw o ddisgyblaethau yn cael eu cymhwyso i un thema, problem, syniad, neu brofiad”. Serch hynny, y lleiaf o bynciau cwricwlaidd sydd o dan sylw ar yr un pryd, gall yr athrawon godi safonau yn haws(Barnes, 2015, t. 108)

Er mwyn i addysg drawsgwricwlaidd fod yn llwyddiannus mae’n rhaid i addysgwyr sicrhau ei fod yn berthnasol i’r dysgwyr; byddent yn gwneud hynny drwy gynyddu rhyngweithio gyda byd y plentyn. Gellir rhoi’r plentyn yn ganolog yn y dysgu i annog “cyfranogiad, ymgysylltu, ac ymrwymiad y plentyn” (Barnes, 2015, t. 63). Ategir y pwysigrwydd o lunio cwricwlwm perthnasol gan Lywodraeth Cymru (2019); mae disgwyl i addysgwyr “gynllunio a datblygu cwricwla sy’n berthnasol i gyd-destun penodol dysgwyr”.

Mae’n hawdd disgyn mewn i’r trap o feddwl bod rhaid i addysg drawsgwricwlaidd lwyddiannus fod yn rhywbeth sydd yn digwydd dros gyfnod o dymor; does dim amser penodol sydd angen cael ei neilltuo iddo gael ei weithredu’n llwyddiannus. Gall addysg drawsgwricwlaidd lwyddiannus ddigwydd dros gyfnod o ddiwmod. (Barnes, 2015, t. 108)

## Aml-ddisgyblaethol

*“Multi-disciplinary cross-curricular approaches aim at using a single experience or theme to develop higher levels of understanding and performance in two or more disciplines”* (Barnes 2015, t. 70)

Yn y model aml-ddisgyblaethol mae addysgwyr yn cynnig profiad all gael ei ddefnyddio i gefnogi hyd at dri phwnc gwahanol sydd yn cael eu trin yn gyfartal. Ar gychwyn uned o waith mae gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion mewn hyd at dri phwnc a rhoddir cyfle iddynt ddangos y wybodaeth sydd ganddynt yn barod. Gall ffocws yr uned fod yn ymwneud â digwyddiad, problem, neu gwestiwn er mwyn dod â pherthnasyrwdd i’r disgyblion; cytunai hyn gydag awgrym Donaldson (2015, t. 67) i “blant a phobl ifanc weld bod eu dysgu’n berthnasol i’r byd y tu allan i’r ysgol a bod cyfleoedd i ffurfio cysylltiadau”. Wedi i’r disgyblion ddangos yr hyn maent yn eu gwybod yn barod maent yn cael profiad wedi ei rannu gyda’r disgyblion eraill er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth. Gall y profiad fod yn “ddigwyddiad cyhoeddus, gwaith maes, ymweliad, ymwelydd, themau’r wythnos, perfformiad” ymysg pethau eraill (Barnes, 2015, tt. 235-236). Mae profiadau wedi eu rhannu yn gallu “cael eu dehongli mewn nifer o wahanol ffyrdd ac felly yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb” (Barnes, 2015, t. 235)

Er y gellir cyfoethogi hyd at dri phwnc gan y profiad, nid oes disgwyl i’r athro gyfuno’r pynciau i’w addysgu’n drawsgwricwlaidd. Golygir hyn nad oes angen i athrawon geisio darganfod cysylltiadau cymhleth rhwng agweddau arwahanol, ac felly yn ôl Barnes dyma’r fodel fwyaf addas ar gyfer athrawon newydd. Gan fod y pynciau yn cael eu cadw ar wahân, mae’n haws tracio ac asesu cyrhaeddiad a datblygiad disgyblion; mae sicrhau adborth cyson yn hanfodol gan ei fod yn “bont rhwng addysgu a dysgu” (Wiliam, 2011, t. 27). Wrth dracio, gall yr athrawon barhau i ddefnyddio’r strategaethau ac adnoddau sydd eisoes mewn lle, megis Incerts.

**Syniad gweithgaredd**

Gellir defnyddio’r model ar gyfer uned o waith am y môr i ddisgyblion blwyddyn 2. Dros gyfnod o dymor gall y disgyblion ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd, drwy roi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar y FFLIRh a’r FfCD. Yn ystod yr uned gellir defnyddio ymweliad i’r acwariwm i gefnogi’r dysgu. Yn ychwanegol i hynny, gall yr addysgwr drefnu ymweliad gan arbenigwr pysgod i gyflwyno gwybodaeth i’r disgyblion. Mae’n bosib gwneud hyn gan fod y “profiad wedi ei rannu” yn gallu golygu amrywiaeth eang o bethau, nid yn unig mynd â’r dosbarth ar ymweliad. (Barnes, 2015, 235-236). Gan fod yr uned yn cael ei lywio gan yr addysgwr, gallent benderfynu ar ddiben yr uned a beth sydd yn ofynnol o’r disgyblion. Mewn uned am y môr gall yr addysgwr ofyn i’r dysgwyr greu modelau o wahanol bysgod, ond ar raddfa gywir, a bydd hynny’n caniatáu’r disgyblion i “ddefnyddio ystod eang o adnoddau ac ysgogiadau” (FfCS, 2015, t. 49)

Ar gychwyn yr uned gall y disgyblion ddangos y wybodaeth sydd ganddynt yn bresennol o’r môr drwy wneud tasgau o “arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid er mwyn eu grwpio” ac “adnabod rhai anifeiliaid sy’n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored” (FfCS, 2015, t. 44). Bydd y wybodaeth fydd gan y disgyblion eisoes yn annigonol i greu prosiect o safon ar ddiwedd yr uned, felly bydd y tasgau cyn yr ymweliad yn ffon fesur dda i weld beth all y disgyblion holi yn ystod yr ymweliad. Bydd y disgyblion yn gallu “dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol” a “gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen” (FfLIRh, 2019).

Yn dilyn yr ymweliad bydd gan y disgyblion fwy o wybodaeth a dealltwriaeth o bysgod ac felly byddent yn gallu bwrw wti i wneud y prosiect. Gan ei fod yn ofynnol i’r disgyblion wneud y pysgod ar y raddfa gywir mae angen i’r addysgwr sicrhau cyfleoedd i’r disgyblion “ddefnyddio unedau safonol i fesur” ac “echdynnu a dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau” (FfLIRh, 2019). Gall y disgyblion hefyd ddefnyddio adnoddau VR i weld pysgod yn eu cynefinoedd er mwyn ceisio gwneud y prosiect. Bydd y gweithgareddau VR yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion “gasglu data, tynnu gwybodaeth, a chofnodi data a gesglir” (FfCD, 2019)

# MODELAU TRAWSGWRICWLAIDD

## “Mae nifer o wahanol agweddau yn cael eu cymhwyso ar gyfer un profiad, problem, cwestiwn, thema, neu syniad” (Barnes, 2015, t. 11)

## Hanes a dyfodol addysg trawsgwricwlaidd yng Nghymru

Gan na fydd y Cwricwlwm Newydd yn cael ei lansio nes 2022, yn bresennol mae ysgolion yn gweithredu ar y Cwricwlwm lansiwyd yn 2008. Yn wreiddiol yng nghwricwlwm 2008 roedd y llywodraeth (2013a, t. 2) yn ceisio “cydbblethu datblygiad sgiliau trwy’r cwricwlwm cyfan”; gwelwyd gan Estyn (2012) nad yw’r dull yn effeithiol. Fel ymateb i hynny, fe gyhoeddwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i gefnogi’r Cwricwlwm. Yn yr un modd, roedd adroddiad y grŵp llywio TGCh (2013) wedi amlygu eu pryderon am ddarpariaeth medrau digidol yn y Cwricwlwm Newydd; mewn ymateb i hynny awgrymwyd gan y Llywodraeth (2013b, t. 4) dylid “gweithredu Fframwaith Llythrennedd Digidol Statudol i weithio ochr yn ochr â’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd”. Yn dilyn hyn, mae’r Fframweithiau wedi bod mewn gweithrediad ers 2014.

Yn sgil adroddiad yr Athro Donaldson (2015) atgyfnerthwyd cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn y Cwricwlwm Newydd; bydd disgwyl i addysgwyr roi cyfle i ddisgyblion “ddatblygu lefel cymhwysedd uchel yn [yr agweddau] a’u bod yn cael cyfleoedd aml i’w datblygu, eu hymestyn a’u cymhwyso ar draws y cwricwlwm” (Donaldson, 2015, t. 39). Y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd bydd i’w gweld yn y Cwricwlwm Newydd fydd Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd Digidol; mae’r rhain yn cyd-fynd gyda’r Fframweithiau sydd wedi bod mewn lle yn y Cwricwlwm presennol ers 2013. Yn wahanol i’r Fframweithiau hyn, mae’r Cwricwlwm Newydd wedi ei adeiladu o gwmpas ac wedi ei seilio ar y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ac mae disgwyl eu “cynnwys ym mhob maes dysgu a phrofiad fel y bo’n briodol” (Llywodraeth Cymru, 2019). Yn hytrach na chael ei rannu fesul blwyddyn, bydd y Fframweithiau, i gyd-fynd â’r Cwricwlwm Newydd, yn cael eu rhannu i gamau cynnydd “yn unol â datblygiad addysgol y dysgwr o dan sylw” (Llywodraeth Cymru, 2019)

Yn y Cwricwlwm Newydd, bydd pob un o’r cyfrifoldebau gan gynnwys Cymhwysedd Digidol yn derbyn yr un sylw, a hynny oherwydd ei fod yn “fwyfwy hanfodol ar gyfer dysgu a bywyd ac y dylid rhoi statws tebyg iddo yn y cwricwlwm i’r hyn sydd gan lythrennedd a rhifedd” (Donaldson, 2015, t. 40).

## Tebygrywdd rhwng y modelau


Cydnabyddir gan Barnes (2015, t. 82) fod nifer o’r modelau trafodwyd gydag agweddau sydd yn gor-gyffwrdd. Er ar y wyneb mae’r ddau fodel yn ymddangos yn wahanol iawn, gwelir bod y ddau ohonynt yn “defnyddio profiadau synhwyrol pwerus ac ystyrlon i annog dysgu” ac yn rhoi cyfleoedd i “ddehongli ac adeiladu ar y profiadau”. Mae’r modelau hefyd wedi eu seilio ar allu addysgwr i “gynllunio targedau penodol a blaengar ym mhob pwnc”; yn amlwg, mae’r targedau yn cael eu gosod ar adegau gwahanol yn y modelau.

## Sut fuasai thema tebyg yn wahanol gyda’r ddau fodel?

Dysgu am chwarelwyr drwy ymweld â’r amgueddfa lechi yn Llanberis. Addas ar gyfer dosbarth o ddisgyblion blwyddyn 2

Gan fod yr ymweliad yn cynnig ei hun i ddisgyblion gymharu eu bywydau gyda bywydau chwarelwyr gall yr addysgwr lunio nifer o weithgareddau i’r disgyblion allu datblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Yn ôl Barnes (2015) mae’r model amlddisgyblaethol yn gweithio ar ei orau pan does dim mwy na tri agwedd yn cael ei ddatblygu.


Ar gychwyn yr uned gellir rhoi cyfleoedd i’r disgyblion dod yn gyfarwydd â, a chydabod, bod gwahaniaeth sylweddol rhwng bywydau pobl heddiw i gymharu â’r gorffennol. Gall y disgyblion ddweud sut y maent yn meddwl y mae bywydau wedi newid. Drwy drefnu ymweliad, gall y disgyblion weld a phrofi’r gwahaniaeth rhwng eu bywyd nhw a bywyd chwarelwyr. Gan fod yr addysgwr yn penderfynu ar drywydd y dysgu ar gychwyn yr uned, mae’n sicrhau eu bod yn cael digon o amser i ymgylfarwyddo gyda’r hyn sydd yn berthnasol i’r uned. Gall hyn gynnig cyfleoedd i ddisgyblion astudio ac ymchwilio i fwy o ddyfnder. Golygai’r strwythur hefyd fod yr addysgwr yn gallu penderfynu ar ddiben yr uned (h.y. y prosiect)



Rhoddir y model oportiwnistaidd fwy o rhyddid i addysgwyr a dysgwyr wrth iddynt weithio. Drwy drefnu ymweliad i’r amgueddfa lechi ar ddechrau uned o waith, mae’n caniatau cyfle i’r disgyblion fwynhau’r ymweliad a holi unrhyw gwestiwn sydd yn codi, yn hytrach na gorfod canolbwyntio ar agweddau penodol.

Drwy roi rhyddid gwirioneddol iddynt, gall y disgyblion ganolbwyntio ar yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sydd yn ofynnol ohonynt; dylai hyn gynyddu ymrwymiad y disgyblion gan eu bod yn teimlo agwedd o berchnogaeth

Gall y disgyblion holi cwestiynau sydd yn ymwneud â bywydau’r chwarelwyr, eu gwaith, neu eu diddordebau. Mae’r posibiliadau’n ddiddiwedd ond mae’n gofyn am lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth ar ran yr addysgwr; ni fydd yn bosib gweithredu ar y cwestiynau oni bai fod yr addysgwr yn hyderus yn addysgu pynciau ar draws y cwricwlwm. Gall y disgyblion gyflwyno’u canfyddiadau sut bynnag yr hoffent.



## Pam addysgu’n drawsgwricwlaidd?

**Manteision**

-Mae pob un person ymateb gwahanol i bopeth sydd yn eu hwynebu; hynny yw, mae’n bosib i unigolyn ymateb yn ymwybodol ac anymwybodol, yn ogystal ag ymateb yn rhesymol neu yn afresymol. Mae addysgu’n drawsgwricwlaidd yn cymryd mantais o’r ystod eang o wahanol ymatebion sydd yn bosib. (Barnes, 2015, t. 85-86). Parha Barnes gan nodi fod addysgu’n drawsgwricwlaidd yn “rhoi cymhelliant i’r rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn rhoi cyd-destun perthnasol i’r dysgu”

-Mae nifer o fodelau trawsgwricwlaidd Barnes yn rhoi llais i’r plentyn, a thrwy wneud hynny mae gan y disgybl deimlad o “berchnogaeth” (Estyn, 2018). Trafodwyd mwy am lais y plentyn yn yr adran ‘Oportiwnistaidd’ o’r poster

**Anfanteision**

-Mae’r darpariaeth yn dibynnu ar safon yr addysgu. Os nad yw’r addysgu yn ddigonol gall “camsyniadau newydd” gael eu ffurfio; deillia rhain o addysgu sydd ddim yn berthnasol i’r disgyblion. (Barnes, 2015, t. 63)

-Gan fod Llais y Plentyn yn bwysig gwelwyd ei fod yn bosib i ddysgwyr osgoi’r hyn nad ydynt yn gallu eu gwneud; dadleir Hayes (2010, 384) fod hyn yn “annog arferion ac agwedd gwael”. Parha gan nodi fod addysgwyr yn teimlo rheidrwydd i wneud cysylltiadau rhwng pob agwedd ac felly maent am ei weld yn anodd creu cysylltiadau rhwng agweddau arwahanol megis cysylltu Cerddoriaeth a Daearyddiaeth, i gymharu â chysylltu Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg. Rhannai Barnes (2015, t. 85) y pryder yma gan ei fod yn amlygu nad yw ei lyfr yn honni fod angen i bob agwedd o ddsygu ac addysgu fod yn drawsgwricwlaidd.

## Oportiwnistaidd

*“Opportunistic cross-curricular teaching allows children to dictate the depth and direction of learning in subject categories arising from a shared theme of experience”* (Barnes 2015, t. 75)

Mae’r model yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion lywio’r hyn maent eisiau eu dysgu. Dywed Dewey fod caniatâu i ddisgyblion lywio’r dysgu yn helpu iddynt “ffynnu mewn amgylchedd ble maent yn cael profi a rhyngweithio gyda’r cwricwlwm” (Talebi, 2015, t. 4). Drwy roi llais i’r plentyn, mae’r model yn cydfynd gydag erthyglau 12 ac 13 yn y Confensiwn Hawliau Plant; “yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando” ac “yr hawl i wybodaeth” (Comisiynydd Plant Cymru, 2019). Rhoddir llais i’r plentyn “ymdeimlad o berchnogaeth i’r disgyblion” (Estyn, 2018)

Mae’r model yn deillio o brofiad neu weithgaredd a fyddai’n ysgogi disgyblion i holi cwestiynau a phenderfynu ar drywydd y dysgu. Wrth drafod profiadau wedi eu rhannu dywed Barnes (2015, t. 236) fod athrawon yn dangos eu sgiliau drwy wneud rhywbeth defnyddiol allan o amryw o ymatebion; “gallent gyfuno ymatebion unigol i greu mynegiannau ystyrlon o werthoedd cymunedol a chymdeithasol”

Er bod y model oportiwnistaidd yn cael ei lywio gan y plentyn, mae’n bwysig cofio mai nid hwylusydd yw’r athro; mae addysgu uniongyrchol yn graidd i’r dysgu oportiwnistaidd orau. Gan fod y plant yn llywio trywydd y dysgu mae’r model yn gallu bod yn anrhagweladwy ac mae elfen o risg yn dod yn sgil hynny. Mae angen i’r addysgwyr sydd yn gweithredu arno fod yn hyderus yn mewn amryw o bynciau. Gan nad yw cwestiynau a thrafodaethau’r disgyblion yn cael eu cynllunio, ni ddylai gallu a dealltwriaeth addysgwr amharu ar hynny; “mae disgwyl i addysgwyr fod â gwybodaeth pwnc da i gymryd mantais o’r annisgwyl” (Barnes, 2015, t. 76). Er mwyn sicrhau fod gan yr addysgwyr y sgiliau digonol i weithredu ar y model oportiwnistaidd, awgrymai Barnes fod angen i addysgwyr uwchradd a cynradd dderbyn addysg gytbwys i gynyddu eu hyder mewn amryw o bynciau.

**Syniad gweithgaredd**

Gan fod y model oportiwnistaidd yn ymwneud â rhoi llais i’r plentyn yn dilyn profiad wedi ei rannu, mae’n anodd meddwl am sut yn union buasent nhw’n llywio’r uned. Serch hynny, mae’n bosib ystyried pa sgiliau gall eu datblygu wrth wneud hynny. Ar gyfer dosbarth blwyddyn 2 gellir cychwyn uned o waith drwy ymweld â’r ysgol goedwig a gall hynny annog y disgyblion i “ddangos eu bod yn deall yr hyn maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol” a “gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen” (FfLIRh, 2015). Petai’r disgyblion eisiau dysgu mwy am gynefinoedd gall yr addysgwr gynllunio gweithgareddau o’r Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r byd fel “adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy’n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored” (FfCS, 2015, t. 44). Caniateir y Maes Dysgu i’r addysgwr gynllunio nifer o glyfeoedd i ddatblygu Llythrennedd megis “esbonio manylion perthnasol” a “defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau”; a Rhifedd megis “cymharu’r tymheredd” a “mesur hyd, uchder a phellter; pwysau/mas; cynhwysedd” (FfLIRh, 2015). Dylai’r addysgwr sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu cymhwysedd digidol. Os oes gan y disgyblion ddiddordeb mewn dysgu am wahanol gynefinoedd, gellir defnyddio adnoddau VR megis Google Cardboard i allu gweld a chymharu cynefinoedd a byddai hynny’n datblygu sgiliau Cymhwysedd Digidol megis “rhagweld canlyniad dilyniant syml o gyfarwyddiadau” ac “egluro i eraill sut mae datrysiad yn gweithio” (FfCD, 2015). Gall y disgyblion gyflwyno’u canfyddiadau dros yr uned mewn amryw o wahanol ffyrdd “ni chafwyd eu cynllunio ond cefnogwyd gan athrawon” (Barnes, 2015, t. 78)

Rhestr gyfeirnodï

Barnes, J. (2015) *Cross-Curricular Learning 3-14*. Trydydd Argraffiad. Llundain: Sage

Comisiynydd Plant Cymru. (2019) *CCUHP - Hawliau Plant*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp/> [Darllenwyd: 03/12/19]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron

Estyn. (2012) *Y Fframwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Arfarniad%20o%20effaith%20y%20Fframwaith%20Sgiliau%20anstatudol%20i%20ddysgwyr%203%20i%2019%20oed%20yng%20Nghymru%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20-%20Mai%202012.pdf> [Darllenwyd: 05/12/19]

Estyn. (2018) *Mae lleisiau disgyblion o bwys*. Ar gael yn: <https://estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/mae-lleisiau-disgyblion-o-bwys> [Darllenwyd: 03/12/19]

Hayes, D. (2010) ‘The seductive charms of a cross-curricular approach’, *Education 3-13*, 38(4), tt. 381-387.

Llywodraeth Cymru. (2013a) Asesu ar gyfer dysgu a’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/199a18b5-672f-449b-ab04-dc0a1f58793c/asesu-ar-gyfer-dysgu-ar-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf> [Darllenwyd: 26/11/19]

Llywodraeth Cymru. (2013b) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/c163e330-a978-4523-8ce6-b659af27a51f/cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf> [Darllenwyd: 27/11/19]

Llywodraeth Cymru. (2015) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019) *Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022/> [Darllenwyd:03/12/19]

Llywodraeth Cymru (2019) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/> [Darllenwyd: 19/12/19]

Llywodraeth Cymru (2019) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/> [Darllenwyd: 09/12/19]

Talebi, K. (2015) ‘John Dewey- Philosopher and Educational Reformer’, *European Journal of Education Studies*, 1(1), tt. 1-13. Ar gael yn: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED564712.pdf> [Dyddiad darllenwyd: 02/05/19]

Wiliam, D. (2011) *Embedded Formative Assessment: (Strategies for Classroom Assessment That Drives Student Engagement and Learning*. Indiana: Solution Tree